# Cynllun Trosglwyddo Cyfredol Clwstwr Ysgol Gyfun Rhydywaun

2022-23

# Cynllun Trosglwyddo Cyfredol Clwstwr Ysgol Gyfun Rhydywaun 2022-23

Mae'r Cynllun Trosglwyddo Cyfredol (CTC) hwn yn gytundeb ar y cyd rhwng yr ysgolion canlynol:

Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon
Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug
Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful
Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun

Nod y Cynllun

Er mwyn gwireddu amcanion yr ysgolion uchod o ddarparu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf, yn seiliedig ar gontinwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed, anelwn at sicrhau bod disgyblion y clwstwr yn elwa drwy'r gweithdrefnau trosglwyddo a gynigir er mwyn iddynt ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol gyfun gan ymateb yn llawn i'r profiadau addysgol a chymdeithasol newydd. Golyga hyn fod y cynllun yn hyrwyddo dilyniant a pharhad o ran y cwricwlwm newydd a hefyd yn y gofal bugeiliol a roddir i'r disgyblion gan hyrwyddo'r ffordd tuag at gynnydd academaidd.

Hanfod y cynllun yw nodi sut yr ydym yn cydweithio i gyflawni'r nodau uchod. Yn unol â'r canllawiau a roddwyd, bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Mae'r Cynllun yn nodi'r camau a gymerir yn unol â'r gofynion craidd isod a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan Rheoliadau Pontio 2022

- Sut byddwn fel clwstwr yn cydgysylltu ac yn rheoli'r broses bontio o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgolion uwchradd i ddysgwyr
- Sut byddwn fel clwstwr yn sicrhau parhad dysgu yn gyffredinol drwy gynllunio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 sy'n pontio i Flwyddyn 7
- Sut y caiff cynnydd dysgwyr eu gefnogi wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Sut y caiff anghenion dysgu a lles pob dysgwr unigol eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- byddwn fel clwstwr yn adolygu ac yn monitro effaith y cynllun pontio o ran sut mae wedi helpu i:
    - sicrhau parhad dysgu
    - cefnogi cynnydd dysgwyr unigol

Yn ogystal â'r gofynion craidd uchod noda'r cynllun sut y byddwn yn cydweithio i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo yn y meysydd canlynol:

- Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion
- Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion
- Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol
- Cydweithio wrth gynllunio'r cwricwlwm i sicrhau continwwm dysgu a ddisgrifir yn genedlaethol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed.

Ym mhob achos, noda'r cynllun y gwaith cyfredol a pharhaus parthed trosglwyddo o flwyddyn 6 i 7 gan barhau drwy'r camau cynnydd Cwricwlwm i Gymru. Os nodir meysydd i'w datblygu ymhellach byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau blynyddol ac yn gweithio arnynt gyda'n gilydd yn ystod cyfnod y cynllun.

## Rheoli a chydgysylltu'r broses drosglwyddo

Bydd Brifathrawon yr holl ysgolion a Phennaeth Cynorthwyol Rhydywaun yn cyfarfod yn rheolaidd, fan leiaf unwaith bob tymor. Bydd aelodau'r Grŵp yn gwneud adolygiad blynyddol o'r cynllun trosglwyddo ar ddechrau y flwyddyn

ysgol, gan ystyried y cynnydd a wnaed a chytuno ar flaenoriaethau'r flwyddyn. Bydd angen i gyrff llywodraethu'r ysgolion gytuno ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad.

O fewn Corff Llywodraethol pob ysgol bydd cynrychiolydd o'r Grŵp Llywio yn rhoi adborth rheolaidd i'r Corff ar y datblygiadau trosglwyddo diweddaraf.

Mae llywodraethwyr enwebiedig ar gyfer trosglwyddo ar gyrff llywodraethol pob un o'r ysgolion.

Cyd-gysylltydd Trosglwyddo

Penodwyd Arwel James yn Gyd-gysylltydd Trosglwyddo, ac fe fydd yn hyrwyddo gwaith y grŵp llywio, ac yn benodol yn cynghori ar:

- Fonitro'r cynnydd ar y prif feysydd i'w gwella sydd wedi eu nodi yn y cynllun
- Y dull gorau o sicrhau fod cyfleoedd rheolaidd i gynnwys rhieni/gofalwyr a disgyblion wrth gael adborth a chynllunio
- Sut i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol â'r gwaith sy'n digwydd dan arweiniad yr awdurdod lleol
- Unrhyw gamau i fodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad ag adolygu a chyhoeddi'r Cynllun Trosglwyddo.

Fe fydd Mr Arwel James yn gweithio'n agos gyda Phennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 7, sef Mrs Leana Stansfield, a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Mrs Heidi Bryant-Miles. Arwel James sy'n gyfrifol am y trefniadau trosglwyddo, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau, ymweliadau cynradd, a throsglwyddo gwybodaeth am Ysgol Gyfun Rhydywaun.

Fe fydd y Pennaeth Cynnydd a Lles yn gweithio gydag Arwel James o fis Mehefin ymlaen. Mr Arwel James a Mrs Heidi Bryant-Miles, Cydlynydd ADY, fydd yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am y disgyblion a rheadru'r wybodaeth honno.

# 1. Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd

Mae polisi trosglwyddo'r clwstwr yn nodi ein bod yn darparu cyfleoedd i Feysydd Dysgu a Phrofiad Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun i gyfarfod ag athrawon o'r ysgolion cynradd er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth bynciol ar draws y camau cynnydd.

Yn gyfredol gwelir cydweithio cwricwlaidd drwy:

- Meysydd dysgu a phrofiad yn cynllunio ar y cyd, cysoni dulliau dysgu ac addysgu a rhannu arfer dda
- Enghreifftiau o adnoddau adrannol ac enghreifftiau o wersi ar wefan Bl.6 Rhydywaun
- Ymweliadau trosglwyddo pynciau allgraidd er mwyn hybu arfer dda e.e. yn y gorffennol - Daearyddiaeth, Cerddoriaeth, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Celf a Drama, Technoleg Bwyd, Hanes, a Sbaeneg
- Cyfarfodydd safoni a chymedroli yn y pynciau craidd yn ol yr angen
- Cynnal sesiynau HMS ar y cyd

Meysydd datblygu 2022-2023

| Targed | Pwy | Pryd | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Parhau i gydweithio gyda'r cwricwlwm newydd | MDaPh / Cynradd | Medi – Gorffennaf | - HMS Clwstwr – Medi 2022<br>- Cyfarfod i bob MDaPh, unwaith bob tymor 2022-23 |

# 2. Sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu

Credwn fod sicrhau dilyniant mewn dysgu ac addysgu yn holl bwysig wrth hyrwyddo trosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnodau allweddol. Gwerthfawrogir y gwaith a wneir parthed technegau dysgu ac addysgu gan holl ysgolion y bartneriaeth. Cydweithir rhwng yr ysgolion ar y dulliau hyn, ac ar yr un pryd, rhoddir cyfle i ehangu ar ddarpariaeth arbenigol gwahanol aelodau o'r staff.

Yn gyfredol hyrwyddir parhad mewn dulliau dysgu ac addysgu drwy'r gweithgareddau canlynol:

1. Rhoddir cyfle i athrawon Blwyddyn 6 ymweld â gwersi ac arsylwi ar arddulliau dysgu ac addysgu ar gyfer Blwyddyn 7, gan roi'r cyfle iddynt raeadru'u canfyddiadau i staff y sector uwchradd.
2. Rhoddir y cyfle i flynyddoedd chwech y partneriaid cynradd ddod i Rydywaun er mwyn cael rhagflas o wersi yn yr uwchradd. Croesewir athrawon i'r gwersi hyn er mwyn arsylwi arnynt a rhoi'r cyfle iddynt drafod unrhyw fater perthnasol a allai godi.
3. Mae ysgolion y bartneriaeth yn fwy na bodlon rhannu offer gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo parhad yn y dulliau dysgu ac addysgu e.e. offer gwyddoniaeth/TGCh.
4. HMS clwstwr cyfan le arddangosir strategaethau dysgu ac addysgu megis Dysgu i'r Brig, Llais Rhydywaun/Llais 21, cynllun 'Dim ond Darllen' a meddylfryd Twf. Bydd y model HMS clwstwr yn parhau i ddatblygu yn y flwyddyn academaidd 2023-24 gyda strategaethau cytûn i'w gyflwyno ym mhob ysgol gynradd.
5. Adnoddau cytûn yn cael eu defnyddio yn y Clwstwr Cynradd e.e. posteri clwstwr wedi eu creu ac yn cael eu harddangos yn ysgolion y clwstwr i gyd.

Meysydd datblygu 2022-23

| Targed | Pwy | Erbyn Pryd | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Cydweithio ar strategaethau dysgu ac addysgu amrywiol megis Adalw, Dysgu i'r brig, Llais Rhydywaun, Dim ond darllen, Meddylfryd Twf. | BWJ, RMS, AEJ /Cynradd | Parhau | - HMS Clwstwr – Medi 2022<br>- Cyfarfod bob Tymor<br>- Ymweliadau / teithiau dysgu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun arloeswyr digidol, hyfforddiant wedi ei arwain gan Rhydywaun mewn partneriaeth gyda Chymunedau Digidol Cymru | LD / DGW / Cynradd | Parhau | Gweithgaredd gyda Bl.6<br>Ionawr 2023 |

## 3. Sicrhau cysondeb wrth asesu, monitro, a dilyn cynnydd y disgybl drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol

Gwneir defnydd helaeth o wybodaeth flaenorol am y disgyblion pan gychwynnant ym Mlwyddyn 7 yn Rhydywaun. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio er mwyn pennu targedau wrth i'r disgyblion dilyn llwybrau dysgu ar hyd y camau cynnydd. Mae cywirdeb y wybodaeth hyn yn hanfodol ac amlinellir y wybodaeth gyfredol a dderbynnir isod, ynghyd â'r meysydd i'w datblygu.

1. Rhoddir cyfle yn flynyddol i athrawon y sectorau ddod at ei gilydd er mwyn monitro ac asesu gwaith disgyblion ym Mlwyddyn 7. Edrychir ar lyfrau a cheir cyfle i drafod gyda disgyblion yn unigol ac mewn grwpiau. Trafodir unrhyw enghreifftiau o dangyflawni neu o gynnydd sylweddol gydag athrawon yn Rhydywaun.
2. Yn yr un modd ceir ymweliadau gan aelodau'r Hafan (adran ADY / Lles) er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion addysgiadol / lles a phenderfynu ar y dulliau gorau o ddiwallu'r anghenion hynny.
3. Bydd Rhydywaun yn derbyn gwybodaeth am asesiadau ffurfiol ar draws y cwricwlwm gan y partneriaid cynradd, ynghyd â chanlyniadau Profion Llythrennedd a Rhifedd.
4. Ceir cyfarfodydd ar y cyd er mwyn cynllunio asesu o fewn y cwricwlwm gyda'r gwaith cysoni a darganfod cyfleoedd asesu cytûn yn parhau drwy'r flwyddyn academaidd 2022-23.

<u>Meysydd datblygu 2022-23</u>

| Targed | Pwy | Erbyn Pryd | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Cynnal cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad. | Arweinwyr / cynrychiolwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda cynrychiolwyr MdaPh ysgolion y Clwstwr, | Parhau | Cyfarfod bob tymor gan bob MDaPH<br><br>Cyfarfodydd wedi eu cynnal. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd wedi eu rhaeadru i athrawon ysgolion y clwstwr. Dealltwriaeth gytûn o'r safonau a startegaethau dysgu ac addysgu. Cysondeb yn asesiadau ysgolion y clwstwr wrth arwain at cynllun peilot asesu o fewn y Cwricwlwm newydd. |
| Ymestyn y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol rhwng Rhydywaun a'r ysgolion cynradd, gyda chyfarfodydd cydlynwyr i drafod y ddarpariaeth, y methodoleg, a'r adnoddau ar gyfer y disgyblion hyn. | Cydlynydd ADY Rhydywaun, Cydlynwyr cynradd | Tymor y Gwanwyn | Gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol sy'n galluogi disgyblion i ymgartrefu yn Rhydywaun gan dderbyn y gynhaliaeth a'r gefnogaeth gywir. |

## 4. Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau.

Yma disgwylir crynodeb o sut y byddwn yn gwerthuso effaith y cynllun dros y blwyddyn nesaf. Gellir gwerthuso'r targedau prosiect blynyddol. Dylid ystyried y canlynol:

1. Rhoddir adroddiad ac adolygiad i'r llywodraethwyr yn rheolaidd gan y llywodraethwyr enwebiedig.
2. Rhoddir pwyslais penodol ar safonau wrth drafod cynnydd disgyblion a rhennir gwybodaeth parthed cyrhaeddiad diwedd cyfnodau allweddol gyda'r clwstwr.

# 5. Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion

Rhaid wrth drosglwyddo bugeiliol llwyddiannus, sicrhau trosglwyddo cwricwlaidd llwyddiannus, a sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i wneud cynnydd yn y sector uwchradd. Mae rhaglen drosglwyddo fugeiliol lawn wedi ei sefydlu, a cheir gwerthusiad o'r rhaglen yn flynyddol gan ddisgyblion Blwyddyn 7. Gweithredir ar unrhyw argymhellion y gellir eu cyflawni. Ar hyn o bryd mae'r meysydd isod yn rhan o raglen drosglwyddo fugeiliol Rhydywaun:

1. Ceir noson agored er mwyn i rieni a disgyblion blwyddyn 6 weld yr ysgol ar waith.
2. Bydd y Pennaeth Cynorthwyol (AEJ) yn o gystal â staff cyswllt a staff allweddol eraill, yn cwrdd â'r disgyblion ym Mlwyddyn 6 ar fwy nag un achlysur cyn y trosglwyddo, gan gyflwyno'r ysgol i'r disgyblion. Bydd ymweliadau mis Mai yn cynnwys ymweliad gan Pennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 7 er mwyn dosbarthu gwybodaeth am y diwrnod anwytho a'r cwrs anwytho yn Llangrannog.
3. Cynhelir deuddydd anwytho ym mis Mehefin sy'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion gwrdd a'u dosbarthiadau newydd ac â'u tiwtoriaid, ynghyd â chael blas ar wersi yn Rhydywaun.
4. Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer rhieni yn rhithiol ac ar safle'r ysgol.
5. Cynhelir cystadlaethau chwaraeon e.e. cystadleuaeth rygi / pêl rwyd
6. Yn ystod trydedd wythnos y tymor cynhelir cwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.
7. Trafodir agweddau ar drosglwyddo yng nghyfarfodydd y fforwm blwyddyn a'r Cyngor Ysgol, a gweithredir ar argymhellion os y gellir.
8. Defnyddir aelodau o'r Chweched Dosbarth fel mentoriaid yn ystod y diwrnodau ymweld, fel swyddogion yn Llangrannog, yn y dosbarth, ac ar y cynllun darllen i'r grŵp targed. Mae'r mentoriaid ar gael i wrando ar bryderon disgyblion Blwyddyn 7 a chynnig cymorth iddynt. Mae rhai disgyblion y Chweched yn cael eu hyfforddi gan Bullies Out.

<u>Meysydd datblygu 2022-23</u>

| Targed | Pwy | Pryd | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Ymweliad 'Hawl i Holi' a'r arloeswyr digidol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd. | AEJ, Chweched, Disgyblion Bl.9/10 TGCH | Ionawr 2023 | Disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael cyfle i ofyn am yr ysgol a thrafod unrhyw bryderon. Cydweithio ar brosiect rhaglenni. |
| Trefnu Noson Rhieni Bugeiliol ychwanegol er mwyn i rieni gwrdd â'r tiwtor dosbarth am adborth ynglŷn â sut mae disgyblion yn ymgartrefu yn yr ysgol.<br><br>Gellir ei wneud yn rhithiol os oes angen | AEJ, Pennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 7, tiwtoriaid dosbarth Blwyddyn 7, Cydlynydd ADY. | Hydref 2022 | Rhieni disgyblion Blwyddyn 7 wedi derbyn adborth ynglŷn â sut mae'r disgyblion wedi ymgartrefu yn yr ysgol.<br>Rhieni wedi cael cyfle i gwrdd â'r PCLI a'r Cydlynydd ADY i drafod cefnogaeth ac ymyraethau angenrheidiol. |
| Disgyblion Blwyddyn 5 i dderbyn ynmawliad gan athro/athrawes uwchradd er mwyn ymgymryd mewn gweithgaredd (testun i'w gadarnhau). | Disgyblion Blwyddyn 5, adrannau Rhydywaun i'w gadarnhau. | I'w gadarnhau. Tymor y'r Haf 2023 | Disgyblion wedi ymgymryd mewn amryw o weithgareddau. |
| Diwrnodau ymweld ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. | Disgyblion Blwyddyn 6, adrannau Rhydywaun. | I'w gadarnhau. Tymor y'r Haf 2023 | Disgyblion wedi ymweld ac wedi cael blas ar wersi Rhydywaun. |
| Gweithgaredd Add Gorff Traws Ysgol | Yr Adran Addysg Gorfforol | Haf 2023 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deuddydd anwytho ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a noson rhieni i drosglwyddo gwybodaeth am drefniadau anwytho.<br><br>Gellir ei wneud yn rhithiol os oes angen | Athrawon Rhydywaun, Tiwtoriaid dosbarth Bl7 | Gorffennaf 2023 | Disgyblion wedi ymweld â'r ysgol, cwrdd â disgyblion eraill eu dosbarthiadau cofrestru a'r tiwtoriaid ac wedi cael blas ar wersi.<br>Rhieni wedi derbyn gwybodaeth am yr ysgol a'r broses trosglwyddo.<br><br>Cesglir barn y disgyblion a'r rhieni am y profiadau drwy gyfrwng holiadur trosglwyddo. |
| Cwrs Pontio Llangrannog (Gohiriwyd am y flwyddyn 2022-3) | PCLl Bl7, tiwtoriaid, SWOGS y Chweched | ----<br>(Gohiriwyd am y flwyddyn 2022-3) | ---- |
| Datblygu adnoddau rhithiol ar gyfer gwefan Blwyddyn 6 i gyfoethogi'r adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion a theuluoedd.<br><br>Adnoddau i'w ddarparu drwy gwefan Bl.6 ar wefan Rhydywaun | AEJ, Adrannau Rhydywaun, PCLl Bl.7 | Parhau | Adnoddau amrywiol ar gael ar y wefan Bl.6 |

# 6. Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion sydd yn ategu'r wybodaeth statudol

Mae'n hanfodol fod yr ysgol uwchradd yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion er mwyn cael darlun cyflawn o'r disgybl. Cesglir y wybodaeth gyfredol gan Arwel James, Mrs Heidi Bryant-Miles
a'r PCLl Bl.7 yn ystod ei hymweliadau â'r ysgolion cynradd. Mae gan athrawon ysgolion y clwstwr ddealltwriaeth dda o drefniadaeth Rhydywaun parthed grwpio disgyblion Blwyddyn 7. Bydd ysgolion y clwstwr yn defnyddio meddalwedd Provision Maps i gofnodi ac i rannu gwybodaeth berthnasol.

1. Ceir gwybodaeth am:

    - Gyrhaeddiad y disgybl
    - Cefndir teuluol perthnasol e.e. brodyr/chwiorydd, gwaharddiad llys, iaith y cartref
    - Plant dan ofal yr awdurdod neu mewn angen
    - Ymddygiad
    - Ymdrech a chymhelliant
    - Diddordebau o bwys
    - Cyflawniadau o bwys tu allan i'r ysgol
    - Gwybodaeth allgyrsiol megis chwaraeon a cherddoriaeth
    - Problemau iechyd

    Bydd y Pennaeth Cynnydd a Lles yn coladu'r wybodaeth, a chyda cydweithrediad y Tîm Arwain yn rhaeadru'r wybodaeth berthnasol i'r staff perthnasol. Bydd unrhyw wybodaeth gyfrinachol a dderbynnir yn aros yn gyfrinachol ar sail yr angen i wybod.

2. Bydd y Cydlynydd ADY yn derbyn gwybodaeth am gefndiroedd rhai disgyblion ac yn penderfynu ar ddull gweithredu os yw'n angenrheidiol. Rhennir y wybodaeth gyda'r Pennaeth Cynnydd ac unrhyw aelod perthnasol arall o staff.

3. Bydd Nyrs yr Ysgol yn cyfarfod ag Arwel James a PCLl Bl.7 i drafod disgyblion sydd â phroblemau meddygol.

# 7. Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol

Yn unol ag ym mhwynt 2 uchod, ceir yr ymweliadau isod er mwyn sicrhau bod yr ysgol uwchradd yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol ac yn gallu cynllunio ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion hyn. Rhaeadrir y wybodaeth berthnasol i staff gan y Cydlynydd ADY ac mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar i staff Rhydywaun, lle yn perthnasol.

Yr ymweliadau ar hyn o bryd ydyw:

1. Ceir ymweliadau gan aelodau Hafan Rhydywaun er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion addysgiadol a chydweithio gyda'r staff cynradd er mwyn penderfynu ar y dulliau gorau o ddiwallu'r anghenion hynny.
2. Ceir ymweliadau eraill yn digwydd yn ôl y galw gyda gwybodaeth yn cael ei rannu os yn berthnasol e.e. asiantaethau allanol.


<u>Meysydd datblygu 2022-23</u>

| Targed | Pwy | Erbyn Pryd | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Gwahodd cynrychiolwyr o'r sector uwchradd i adolygiadau statudol disgyblion blynyddoedd 5 a 6, ac yn yr un modd estyn gwahoddiad i athrawon cynradd i adolygiadau statudol disgyblion blwyddyn 7. | Cydlynydd ADY, athrawon blynyddoedd 5 & 6, PCLl7 Rhydywaun | Parhaus | Cynrychiolwyr wedi mynychu cyfarfodydd.<br>Gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ysgolion.<br>Cefnogaeth gywir yn cael ei darparu a'r disgyblion yn gwneud cynnydd o'r herwydd. |
| Sicrhau fod y cydlynwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth. Cynnal seminar tymhorol. | Cydlynwyr ADY y Clwstwr | Yn dymhorol | Seminarau yn cael eu cynnal yn dymhorol.<br>Gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac yn gyson. |
| Parhau gyda'r defnydd o'r feddalwedd Provision Maps fel rhan o ClassCharts i gysoni cofnodi a drosglwyddo gwybodaeth bugeiliol/ADY yn o gystal a broffilau un dudalen. | AEJ i ddarparu hyfforddiant i'r athrawon Bl.6 | Pathau | Athrawon Bl.6 yn hyderus yn defnyddio'r system Provision Maps yn enwedig wrth gofnodi materion bugeiliol a broffilau un dudalen. |

Ar ran llywodraethwyr ysgolion y clwstwr cytunwyd ar gynnwys y cynllun:

Ysgol: Rhydywaun

Enw: Arwel James

Llofnod: 

Dyddiad: Medi 2022